

RHIFYN 19 – Gorffennaf 2019

NEWYDDLEN TRWYDDEDU TACSIS SIR DDINBYCH



Yn y rhifyn hwn

1. Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (WAVs)
2. Ffioedd a Thaliadau
3. Ceisiadau Ar-lein
4. Adborth o'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mehefin
5. Datganiad Polisi ynghylch Addasrwydd Ymgeisywyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat
6. Cofrestr Genedlaethol Gyrwyr Tacsi –NR3
7. Polisi eithrio platiau llogi preifat
8. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
9. Apwyntiadau a Negeseuon
10. Cyfryngau cymdeithasol
11. Diogelu – Gyrwyr Tacsi'n cadw llygad ar bawb
12. Prynwch Gyda Hyder Gogledd Cymru
13. Ein manylion cyswllt
14. Eich manylion cyswllt

Croeso i rifyn diweddaraf Newyddion Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Sir Ddinbych. Gobeithio y bydd yn ddiddorol ac o fudd i chi!



Atgoffir gyrwyr bod gofyn iddyn nhw roi gwybod i'r Cyngor am fanylion unrhyw euogfarn foduro neu droseddol y maen nhw'n eu cael yn ystod cyfnod y drwydded, drwy ysgrifennu atom o fewn 7 diwrnod o gael y euogfarn honno.

Mae gofyn hefyd i yrwyr trwyddedig roi gwybod i'r Cyngor am fanylion unrhyw Rybudd Cosb Benodedig sy'n ymwneud â moduro y maen nhw'n ei gael yn ystod cyfnod y drwydded, ac unrhyw gynng i fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth Cyflymder, drwy ysgrifennu atom o fewn 7 diwrnod o dderbyn Rhybudd neu gynng o'r fath. Rydym yn fodlon derbyn gwybodaeth am y rhain drwy'r post neu drwy neges e-bost.

Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 9AZ
trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

1. Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (WAVs)

Dywedodd y newyddlen flaenorol y byddai'r Cyngor yn cynhyrchu rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn (WAVs). Mae'r rhestr hon bellach ar gael i'r cyhoedd ar wefan Sir Ddinbych yn www.denbighshire.gov.uk/taxi-licences.

Caiff y rhestr hon ei diweddarau o bryd i'w gilydd o wybodaeth a gyflenwir gan berchnogion / gweithredwyr drwy'r ffurflen gais. Ni chynhwysir manylion cyswllt oni bai ein bod wedi cael awdurdod i'w cynnwys, felly cysylltwch â ni os ydych chi am i'ch rhif ffôn gael ei gynnwys.

I'ch atgoffa, mae gan yrwyr ddyletswyddau penodol:

- I gludo'r teithiwr tra mewn cadair olwyn
- Peidio â chodi unrhyw dâl ychwanegol am wneud hynny
- Os yw'r teithiwr yn dewis eistedd mewn sedd teithiwr, i gario'r gadair olwyn
- Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y teithiwr yn cael ei gludo'n ddiogel ac yn gyfforddus; ac i roi cy-morth symudedd i'r teithiwr fel bo'r angen
- Cario cŵn tywys a chŵn cymorth eraill

Gall unigolion na allant gyflawni'r dyletswyddau hyn ar sail feddygol hawlio eithriad trwy lenwi'r ffurflenni angenrheidiol ar www.denbighshire.gov.uk/taxi-licences.

2. Ffioedd a Thaliadau

Byddwch yn falch o glywed nad ydym yn bwriadu cynyddu unrhyw un o'n ffioedd a'n taliadau eleni. Rydym yn dechrau'r broses o adolygu'r holl ffioedd ar draws ein gwasanaeth tua mis Hydref bob blwyddyn fel y gellir cyflawni unrhyw ymgynghoriad mewn da bryd ar gyfer unrhyw gynnydd, fel arfer tua mis Ebrill. Byddwn yn diweddarau deiliaid trwyddedau pan fydd gennym fwy o fanylion.



3. Ceisiadau Ar-lein

Bydd y rhai ohonoch sydd wedi mynd drwy'r broses gwneud cais i fod yn yrwyr yn ddiweddar yn ymwybodol o'r gofyniad ar-lein nawr am eich tystysgrif DBS a gwiriad trwydded yrru'r DVLA. Fel gyda phob proses newydd, roedd rhai problemau cychwynnol ond yn gyffredinol mae hyn yn gweithio'n dda a byddwn yn parhau i wella hyn dros amser. Yn ystod y flwyddyn hon rydym yn ystyried darparu proses ymgeisio ar-lein a fydd yn lleihau amser - a phapur - ymhellach wrth wneud cais. Wrth gwrs, byddwn yn eich diweddarau am hyn.

4. Adborth o'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mehefin

Cafodd gyrrwr wrandawriad o flaen y pwyllgor gan nad oedd wedi datgelu gwybodaeth am euogfarnau ar y ffurflen gais, fel sy'n ofynnol. Er y caniatwyd y drwydded hon, mae'n bwysig nodi bod hyn wedi'i seilio ar y polisi a oedd yn ei le cyn 1 Gorffennaf (gweler isod).

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais am gerbyd fflyd newydd a oedd dros 5 oed. Nid oedd y cerbyd hwn yn gerbyd hacni nac yn gerbyd hurio preifat nodweddiadol ac yn hytrach roedd yn limwsîn bwrpasol a fwriadwyd ar gyfer digwyddiadau arbennig a wrthodwyd gan swyddogion pan y'i cyflwynwyd fel cais gan nad oedd yn bodloni'r polisi oedran. Ar ôl ystyried y ffeithiau'n llawn, penderfynodd yr Aelodau ganiatáu'r drwydded.

Cymerodd holl Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ran mewn sesiwn hyfforddi ar y broses trwyddedu tacsis o wneud cais i gael gwrandawriad llawn. Mae hyn yn rhan o'u datblygiad parhaus sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn, bob blwyddyn.

5. Datganiad Polisi ynghylch Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

Byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol bod y Cyngor yn bwriadu mabwysiadu Datganiad Polisi Sefydliad Cenedlaethol Trwyddedu (IoL) ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, a fyddai'n disodli'r Polisi Euogfarnau presennol. Oherwydd bod y ddogfen yn cael ei datblygu ar lefel genedlaethol, ychydig iawn o sgôp oedd i unrhyw newidiadau gael eu gwneud, ac eithrio ei gwneud yn ddogfen bolisi gwaith y gellir ei defnyddio ar gyfer Swyddogion Sir Ddinbych ac ymgeiswyr / deiliaid trwyddedau presennol. Cynhaliwyd Cymorthfeydd Trwyddedu rhwng Chwefror ac Ebrill ar draws y Sir, gyda sesiynau bore, prynhawn a min nos ar gael. Dim ond tri deiliad trwydded a fynychodd ac nid oedd gan unrhyw un o'r rhain unrhyw broblemau gyda'r polisi. Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn eu cyfarfod ym mis Mehefin i fabwysiadu'r polisi IoL wedi'i ddiweddarau gyda dyddiad gweithredu o 1 Gorffennaf 2019.

PWYSIG - Bwriedir i'r polisi gael ei gymhwyso i'r holl drwyddedau newydd o 1 Gorffennaf 2019. Yn ogystal, bydd unrhyw drwyddedai presennol sydd wedi cael eu hystyried yn "addas a phriodol" o dan y Polisi Euogfarnau a oedd mewn grym cyn Gorffennaf 2019, yn parhau i gael eu hystyried fel y cyfryw ar yr amod na cheir euogfarnau pellach. Os bydd unrhyw euogfarnau ychwanegol pellach h.y. troseddol neu foduro, bydd yr **holl** faterion, gan gynnwys yr **holl** euogfarnau troseddol (nid yw unrhyw euogfarn droseddol yn cael ei hystyried wedi darford at ddibenion trwyddedu tacsis) ynghyd ag unrhyw euogfarnau moduro cyfredol, yn cael eu hystyried ar yr adeg adnewyddu, neu pan fydd y Cyngor wedi cael gwybod am drosedd o'r fath. **Fe'ch cyngorir yn gryf eich bod yn darllen y polisi newydd gan fod nifer o newidiadau a allai effeithio ar gadw'ch trwydded, os byddwch yn cael unrhyw euogfarnau pellach yn y dyfodol.** Gallwch lawrlwytho neu weld y ddogfen yn www.denbighshire.gov.uk/taxi-licences.

6. Cofrestr Genedlaethol Gyrwyr Tacsî – NR3

Yn ein newyddlen ddiwethaf ym mis Chwefror eleni roedd rhywfaint o arweiniad ar gronfa ddata genedlaethol sydd ar fin cael ei gweithredu ar gyfer cofnodi gwybodaeth am ymgeiswyr / gyrwyr y gwrthodwyd trwydded iddynt neu y diddymwyd eu trwydded. Gwelir cyflwyniad y gronfa ddata hon, a elwir yn NR3, fel cam pwysig o ran cynnal diogelwch y cyhoedd.

Mae'r gronfa ddata ddiogel hon, gyda dim ond nifer gyfyngedig o swyddogion â mynediad ati, bellach yn fyw a bydd yn ein galluogi i gofnodi manylion pan fydd trwydded gyrrwr wedi cael ei dirymu neu ei gwrthod. Byddwn hefyd mewn sefyllfa i wirio pob ymgeisydd newydd yn erbyn y gofrestr.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw unigolion yr ystyriwyd i fod yn anaddas ac amhriodol mewn un awdurdod trwyddedu yn gallu mynd i ardal arall a cheisio cael trwydded.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd a ddisbarthwyd yn flaenorol wedi'i ychwanegu at ein tudalennau gwe yn www.denbighshire.gov.uk/taxi-licences.



7. Polisi eithrio platiau llogi preifat

Yn ystod mis Ebrill ymgynghorwyd â deiliaid trwydded perthnasol ar bolisi arfaethedig ar gyfer rhyddhad rhag arddangos plât llogi preifat. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, roeddem yn gallu cyflwyno polisi sydd bellach mewn grym. I grynhoi, bydd hyn ond yn berthnasol i'r gweithredwyr hynny sy'n gwneud gwaith gweithredol gan ddefnyddio math gweithredol o gerbydau. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan yn www.denbighshire.gov.uk/taxi-licences.

8. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Yn ein newyddlen ddiwethaf, tynnwyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer newidiadau ar draws trwyddedu tacsis yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi dod i ben ac mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach ond yn amlwg bydd hwn yn faes gwaith pwysig i gadw llygad arno. Byddwn yn diweddarau deiliaid trwyddedau pan fydd gennym fwy o wybodaeth.

9. Apwyntiadau a Negeseuon

Rydym wedi bod yn gweithredu ar sail apwyntiad yn unig ers tro bellach ac mae hyn yn gweithio'n dda, felly diolch i chi am eich cydweithrediad. Er bod llawer o'n hapwyntiadau'n ymwneud â'r diwydiant taccis rydym hefyd yn delio â meysydd trwyddedau eraill, megis alcohol, metel sgrap, gamblo a masnachu ar y stryd, sydd i gyd yn bwysig i ni a'r ymgeisydd. Y llynedd, ar draws y tîm trwyddedu, bu i ni ymdrin â 2,000 o geisiadau am drwydded neu hawlen, rhai sy'n syml ac yn gyflym tra bod eraill yn gymhleth ac yn hirfaith. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth i chi ynghylch pam na allwn wneud apwyntiadau ar unwaith neu ateb y ffôn. Os byddwch yn ein ffonio, yna gadewch neges a byddwn yn cysylltu yn ôl â chi cyn gynted ag y gallwn, neu fel arall anfonwch e-bost atom. Byddwn bob amser yn hapus i helpu lle y gallwn.



10. Cyfryngau cymdeithasol

Mae ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol bellach wedi'u sefydlu ac rydym yn gobeithio darparu cymysgedd o wybodaeth i drwyddedai a'r cyhoedd ar bob agwedd ar y gwaith Trwyddedu. Ar gyfer y rhai sydd â chyfrif gallwch chi ein dilyn ar Facebook a Twitter gan ddefnyddio'r manylion isod:



Trwyddedu

@TDdinbych

11. Diogelu – Gyrrwyr Tacsî'n cadw llygad ar bawb

Cysylltodd Heddlu Gogledd Cymru â ni yn ddiweddar i dynnu sylw at arfer da gan yrrwr tacsî anhysbys yn Sir Ddinbych. Roedd dynes ddiameddiffyn yn y tacsî ac roedd y gyrrwr yn credu bod yr amgylchiadau'n ymddangos yn amheus, felly defnyddiodd ei ben a'i bastwn ei hun i rybuddio'r heddlu. Oherwydd ei weithredoedd, cafodd mater diogelu a allai fod yn ddifrifol ei osgoi a chadwyd y ddynes yn ddiogel. Er nad ydym yn gwybod pwy oedd y gyrrwr hwn, hoffai Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych ddiolch yn fawr i'r gyrrwr am gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Parhewch i roi gwybod i'r Heddlu neu'r Adain Drwyddedu, am unrhyw wybodaeth yr ydych chi'n meddwl sy'n edrych yn amheus, waeth pa mor fach y credwch ei fod ar y pryd, gan y gallai atal digwyddiad difrifol rhag digwydd.

12. Prynwch Gyda Hyder Gogledd Cymru

Mae hwn yn gynllun a weithredir gan ein cydweithwyr yn y Safonau Masnach ac mae'n rhoi rhestr o fusnesau lleol i ddefnyddwyr, sydd wedi rhoi eu hymrwymiad i fasnachu'n deg. Caiff pob busnes ei archwilio cyn ei gymeradwyo ac yna caiff ei gynnwys yn y gofrestr Prynwch Gyda Hyder a'i hyrwyddo drwy wefan Safonau Masnach a'r cyfryngau cymdeithasol fel "Safonau Masnach Cymeradwy". Am fwy o wybodaeth e-bostiwch tradingstandards@denbighshire.gov.uk.



13. Ein manylion cyswllt

Os hoffech chi gysylltu â'r Gwasanaethau Trwyddedu, gallwch ysgrifennu atom yn:

Gwasanaethau Trwyddedu
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
RHUTHUN
LL15 9AZ

Neu anfon neges e-bost at: trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 706342



14. Eich manylion cyswllt

Yn olaf, hoffem eich atgoffa i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost neu rifau ffôn. Bydd hyn yn ein helpu ni i gysylltu â chi gydag unrhyw newyddion, ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael eich dogfennau adnewyddu mewn da bryd.